NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Gosod rheolydd calon diwifr ar gyfer bradyarhythmia

29 Awst 2018

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a gall achosi cymhlethdodau difrifol.

Os na allwch gael rheolydd calon confensiynol (sy'n cynnwys blwch o dan y croen â gwifrau sy'n mynd i mewn i'r galon), gallwch gael cynnig rheolydd calon di-wifr. Dim ond pan fyddwch yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau y gallwch ei dderbyn, a hynny oherwydd y pryderon ynghylch ei effeithiau hirdymor a chymhlethdodau difrifol.

Os yw rheolydd calon confensiynol yn opsiwn i chi, dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir gosod rheolydd calon diwifr.

Gall Bradyarhythmia (rhythmau annormal y galon) achosi curiad calon araf oherwydd problem gyda system drydanol y galon fel arfer. Yn ystod y driniaeth hon, caiff rheolydd calon di-wifr ei osod yn y galon gan ddefnyddio cathetr (tiwb tenau), drwy bibell waed fawr yn y gwerddyr (ar ben uchaf y goes). Caiff ei atodi'n uniongyrchol i wal y galon a gaiff ei hysgogi i guro'n gyflymach. Mae hyn yn osgoi'r angen i osod blwch rheolydd calon o dan y croen â gwifrau sy'n mynd i mewn i'r galon. Y nod yw helpu'r galon i guro ar gyfradd arferol a lleihau symptomau megis teimlo'n bendro, diffyg anadl, blinder a phoen yn y frest.

Gall NHS Choices fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, egluro unrhyw astudiaeth ymchwil, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth ac i fod yn rhan o unrhyw astudiaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3061-6

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights